Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **3 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Mae Rheoliadau 2018 yn diwygio'r canlynol:
Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Mae Rheoliad 2(8) o'r OS hwn a'r Atodlen iddo yn mewnosod Atodlen 1A newydd yn Rheoliadau 2016. Mae'r Atodlen newydd honno'n cynnwys yr addasiadau sydd wedi'u cymhwyso i'r Cyfarwyddebau canlynol at ddibenion y dehongliad ar ôl ymadael â'r UE o'r cyfeiriadau at y Cyfarwyddebau hynny yn Rheoliadau 2016:

- Cyfarwyddeb 87/217/EEC ar atal a lleihau llygredd amgylcheddol gan asbestos;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom ar 5 Rhagfyr 2013 yn gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n deillio o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio;
- Directive 2006/66/EC of the European Parliament and of the Council of 6 September 2006 on batteries and accumulators and waste batteries and accumulators;
- Cyfarwyddeb 2000/53/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 18 Medi 2000 ar gerbydau diwedd oes;
- Cyfarwyddeb 2012/27/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 25 Hydref 2012 ar ddefnyddio ynni'n effeithlon;
- Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 24 Tachwedd 2010 ynghylch allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig);
- Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar 26 Ebrill 1999 ynghylch anfon gwastaff i'w dirlenwi;
- Cyfarwyddeb (EU) 2015/2193 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 25 Tachwedd 2015 ynghylch cyfyngu ar allyriadau rhai llygryddion i'r aer o weithfeydd hylosgi canolig;
- Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 15 Mawrth 2006 ynghylch rheoli gwastraff o'r diwydiannau cloddiol;

- Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 94/63/EC ar 20 Rhagfyr 1994 ynghylch rheoli allyriadau cyfansoddion organig anweddol sy'n deillio o storio petrol a'i ddosbarthu o derfynfeydd i orsafoedd gwasanaethau ;
- Cyfarwyddeb 2009/126/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 21 Hydref 2009 ynghylch adfer anweddau petrol Cam II wrth i gerbydau gael eu hail-lenwi gyda thanwydd mewn gorsafoedd gwasanaethau ;
- Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 19 Tachwedd 2008 ynghylch gwastraff;
- Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Hydref 2000 yn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi dwr;
- Cyfarwyddeb 2012/19/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 4 Gorffennaf 2012 ynghylch cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol mewn perthynas â'r drefn trwyddedau amgylcheddol.

Mae hwn yn Offeryn Statudol cyfansawdd ond yn sgil yr amgylchiadau eithriadol sydd ynghlwm wrth ymadael â'r UE cytunwyd y tro hwn y bydd y diwygiadau perthnasol yn cael eu gwneud mewn OS gan y DU.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn negyddol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2016 yn cynnwys dros 300 o groesgyfeiriadau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) i fwy nag 20 o Gyfarwyddebau gan yr UE ac offerynnau eraill gan yr UE. Ni fydd llawer o'r croesgyfeiriadau'n weithredol ar lefel gyfreithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2016 yn cynnwys a hefyd yn cyfeirio at derminoleg na fydd yn weithredol, fel cyfeiriadau at "Aelod-Wladwriaethau", a rhwymedigaethau fel "Aelod-Wladwriaeth".

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2016 a wneir gan yr OS Ymadael â'r UE yn sicrhau bod y gyfraith yn parhau'n weithredol yn yr un modd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol o ran polisi, nac unrhyw newid ar unwaith o ran y modd y caiff gweithredwyr eu rheoleiddio. .

Mae'r diwygiadau'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd cyfreithiol ar gyfer y sectorau hynny y mae Rheoliadau 2016 yn berthnasol iddynt a bydd y drefn, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, yn parhau i weithredu fel o'r blaen, gan sicrhau parhad rheoliadol.

Y prif newid yw mewnosod Atodlen newydd (Atodlen 1A) yn Rheoliadau 2016. Mae'r Atodlen newydd hon yn cynnwys addasiadau nad ydynt yn rhai testunol i wahanol Gyfarwyddebau'r UE sydd wedi'u trosi gan Reoliad 2016. Bydd gofyn ystyried yr

addasiadau hyn wrth ddarllen y Cyfarwyddebau hynny at ddibenion Rheoliadau 2016 yn unig - nid yw'r addasiadau'n gymwys y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2016. Mae'r Atodlen yn addasu effaith Cyfarwyddebau'r UE, y croesgyfeirir atynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn Rheoliadau 2016 er mwyn sicrhau y bydd croesgyfeiriadau'n parhau i weithio ar ôl i'r DI ymadael â'r UE. Ni fyddai'r croesgyfeiriadau presennol hyn yn Rheoliadau 2016 i Gyfarwyddebau'r UE yn weithredol heb yr addasiadau a gaiff eu cymhwyso gan yr Atodlen 1A newydd a gaiff eu mewnosod gan yr OS Ymadael â'r UE hwn.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-environmental-permitting-england-and-wales-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.